# CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 4 Mawrth 2020, CANOLFAN PENMYNYDD 7.30yh**

| |
|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng D I Roberts, E Williams, A Mummery, S Hughes, N Jones, L Roberts, D Gwyn, O Evans, M Jones (Cyngor Sir), Delyth (Medrwn Mon) |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng R Williams (Cyngor Sir) |
| Delyth (Medrwn Mon) i drafod "siapio lle" Mae'r prosiect wedi bod yn rhedeg ers tua 4 blynedd. Y pwrpas yw mapio'r hyn sydd ar gael mewn cymunedau fel grwpiau, clybiau a chymdeithasau er mwyn rhannu a gwella asedau cymunedol. Gofynnodd Delyth a oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth bellach i'w throsglwyddo iddi trwy'r Clerc |
| **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| **DERBYN COFNODION**<br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 05.02.20. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng L Roberts yn cynnig a Cyng A Mummery yn eilio |
| **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **Datblygu'r maes chwarae** - Mae'r Clerc yn disgwyl penderfyniad y cais am y grant. |
| **BDO Archwilwyr Allanol.** Disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Torri coed Penmynydd (Scottish Power)** Cynigiodd y Cadeirydd drafod y mater yng nghyfarfod nesaf Unllais a gofyn a yw unrhyw gynghorau eraill wedi cael yr un broblem |
| **Camerau cylch-cyfyng ar yr A55** - Mae'r Cynghorydd E Williams wedi derbyn cyswllt gan yr Heddlu ond yn anffodus nid ydyn nhw'n gallu gwneud unrhyw beth |
| **Defibrillator** - Cytunwyd i symud ymlaen gyda pris Calonnau Cymru |
| **Gor-yrru Star** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir |
| **Bus shelter Star** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris am ailosod un panel ac atgyweirio panel arall. Cytunwyd i ofyn am bris am ddau banel newydd |
| **Coed tu ôl i bungalows y pensynwyr** - Cytuniwyd i dynnu y mater o'r agenda |
| **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN** |
| Dim |
| **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| Rheolwr Archwilio Cyngor Gwynedd - cytuniwyd i dderbyn y pris (£150) am archwilio 2019/20 |
| **MATERION ARIANNOL** |
| Cytunwyd i dalu: |
| Rhoddion - Cytuniwyd i gynnig £50 yr un i First Responders yr Gwasanaeth Ambiwlans, Papur Menai, Seindorf, Beaumaris a Ambiwlans Awyr Cymru |
| Aelodaeth Unllais Cymru £78.00 |
| |
| **MATERION ERAILL** |
| Dim |
| |
| **EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF** |

| |
|---|
| Dim |
| **Llofnod** **Cadeirydd** **03.06.20** |